**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Rhif 3) (Cymru) 2021**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Lywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

## Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2021.

**Vaughan Gething**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

21 Ionawr 2021

## 1. Disgrifiad

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2029 ("y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol") a Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020 ("y Rheoliadau Cyfyngiadau")

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

*Dod i rym*

Mae'r Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud o dan y weithdrefn frys a nodir yn adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22) ("Deddf 1984"). Caiff y Rheoliadau eu gwneud heb i ddrafft gael ei osod a'i gymeradwyo gan y Senedd. Mae Gweinidogion Cymru o'r farn, gan fod brys, bod angen gwneud y Rheoliadau heb i ddrafft gael ei osod a'i gymeradwyo fel y gellir cymryd camau iechyd cyhoeddus er mwyn ymateb yn gyflym i'r bygythiad i iechyd pobl oherwydd y coronafeirws. Mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod y cyfyngiadau a'r gofynion fel y'u nodir yn y Rheoliadau hyn yn angenrheidiol ac yn gymesur fel ymateb iechyd cyhoeddus i'r bygythiad presennol a achosir gan y coronafeirws.

Daw'r Rheoliadau hyn i rym am at 4.00 a.m. ar 22 Ionawr 2021.

*Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol*

Nid yw'r diwygiadau yn y Rheoliadau hyn yn newid y ffaith fod y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol; mae'r Llywodraeth o'r farn y gellir eu cyfiawnhau at ddiben atal lledaeniad clefydau heintus a/neu y caniateir ymyriad ar y sail ei fod yn anelu at gyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae'r Llywodraeth o'r farn hefyd eu bod yn gymesur.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

Mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 ("Deddf 1984"), a rheoliadau a wnaed oddi tani, yn darparu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer diogelu iechyd yng Nghymru a Lloegr. Gwneir y Rheoliadau drwy ddibynnu ar y pwerau yn adrannau 45B, 45C(1) a (3), 45F(2) a 45P(2) o Ddeddf 1984.

Mae'r Memoranda Esboniadol ar gyfer y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol a'r Rheoliadau Cyfyngiadau yn rhoi rhagor o wybodaeth am y pwerau hyn.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Gwnaed y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol ar 5 Mehefin 2020 a daethant i rym ar 8 Mehefin 2020 mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad syndrom anadlol acíwt difrifol coronafeirws 2 (SARS-CoV-2).

Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Yn dilyn cyngor a gafwyd gan y Gydganolfan Bioddiogelwch ynghylch ymddangosiad straen newydd o’r coronafeirws a nodwyd gyntaf yn Ne Affrica, penderfynodd Llywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2020 osod mesurau ychwanegol ar deithwyr a oedd yn dychwelyd i Gymru o'r wlad honno ac aelodau o'u haelwydydd. Cymhwyswyd y gofynion ynysu cryfach hyn hefyd i deithwyr a oedd wedi dychwelyd i Gymru o Dde Affrica yn ddiweddar. Wedi hynny, estynnodd Llywodraeth Cymru y mesurau ychwanegol hynny i nifer o wledydd eraill yn Neheudir Affrica yn dilyn cyngor a gafwyd gan y Gydganolfan Bioddiogelwch ynghylch risgiau sy'n gysylltiedig â'r amrywiolyn newydd hwn.

Mae cyngor pellach sydd wedi'i dderbyn gan y Gydganolfan Bioddiogelwch yn dangos y dylai'r cyfyngiadau presennol sydd ar waith mewn ymateb i ledaeniad yr amrywiolyn newydd barhau i fod ar waith ac, fel dull rhagofalus, y dylid estyn y mesurau hyn i Weriniaeth Ddemocrataidd Congo a Tanzania.  Mae gan y gwledydd hyn ffiniau â Zambia (sydd wedi gweld cynnydd yn nifer yr achosion, ym mhositifrwydd profion ac mewn marwolaethau yn yr wythnosau diwethaf), sydd eisoes yn ddarostyngedig i'r drefn gyfyngiadau gryfach.

Felly, mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn cael eu diwygio i’w gwneud yn ofynnol i unrhyw un sy'n cyrraedd Cymru o Weriniaeth Ddemocrataidd Congo neu Tanzania hunanynysu yn unol â'r drefn gyfyngiadau gryfach, a bydd y gofyniad ynysu hwnnw hefyd yn berthnasol i holl aelodau aelwyd unrhyw un sy'n dod i Gymru o'r gwledydd hynny o 4.00 a.m. ddydd Gwener 22 Ionawr 2021.

Mae’r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn datgymhwyso’r holl esemptiadau sectorol yn Atodlen 2 o’r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn achos teithwyr o wledydd sy’n destun mesurau ychwanegol. Felly, ni fydd modd i neb sy’n cyrraedd Cymru sydd wedi bod yn y gwledydd hyn yn y 10 niwrnod blaenorol gael ei esemptio rhag y gofynion i ddarparu gwybodaeth amdano’i hun fel teithiwr ac i hunanynysu.  Bydd rhestr fyrrach nag sy’n arferol o resymau dros adael, dros dro, y man ynysu yn gymwys hefyd, fel rhan o’r ymateb i’r bygythiad i iechyd y cyhoedd.

Mae’r newidiadau hyn yn angenrheidiol oherwydd yr adroddiadau sy’n cyrraedd o’r gwledydd hynny am y risgiau iechyd sy’n dod i’r amlwg yn sgil canfod straen newydd o’r coronafeirws sydd â lefelau trosglwyddo uchel.

Er mwyn ymateb yn effeithiol i'r sefyllfa sy’n datblygu, gwnaed diwygiadau hefyd i Reoliadau Rhif 5, a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i berson a gyrhaeddodd Cymru cyn 4.00 a.m. ar 22 Ionawr ar ôl bod yn y gwledydd hyn yn ystod y 10 diwrnod blaenorol hunanynysu am 10 o ddiwrnodau o'r dyddiad yr oedd yn y gwledydd hynny ddiwethaf. Bydd y gofyniad hwn hefyd yn berthnasol i unrhyw aelodau o aelwyd y person hwnnw.

I helpu i sicrhau bod y gofynion newydd hyn yn cael eu gweithredu’n effeithiol, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru bellach yn cysylltu ar frys â holl drigolion Cymru sydd wedi bod yn y gwledydd hyn yn y 10 diwrnod diwethaf er mwyn esbonio'r gofynion ynysu newydd.

Yn ogystal, mae diwygiadau'n cael eu gwneud i'r gwaharddiad ar awyrennau a llongau uniongyrchol (un o'r mesurau y mae modd eu gosod ar wledydd sy'n ddarostyngedig i fesurau ychwanegol yn y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol). Ni fydd y gwaharddiad ar deithio bellach yn berthnasol i awyrennau sy'n glanio i gael tanwydd neu ar gyfer gwaith cynnal a chadw, os nad oes unrhyw deithiwr yn dod ar yr awyren nac yn mynd arni; awyrennau sy'n ambiwlansys awyr ac yn glanio er mwyn cludo person i gael triniaeth feddygol; a llongau y mae'n ofynnol iddynt angori yn unol â chyfarwyddyd diogelwch o ganlyniad i ddamwain.

Bydd y diwygiadau ychwanegol hyn hefyd yn dod i rym am 4.00 a.m. ar 22 Ionawr 2021.

Mae Gweinidogion Cymru o'r farn fod y diwygiadau hyn yn gymesur â'r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, sef ymateb i fygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

**5. Ymgynghori**

Oherwydd y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

**6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol**

Ni chynhaliwyd unrhyw asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn oherwydd yr angen i'w rhoi ar waith ar fyrder i ymdrin â bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.